# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd G.O.Jones – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll.Jones – Is-Gadeirydd<br><br>Cynghorwyr W.J.Chorlton, C.Ll.Everett, R.Anthony Dew; B.Durkin; Jim Evans; Ff.M.Hughes, K.P.Hughes, R.Ll.Hughes T.Ll.Hughes W.I.Hughes; W.T.Hughes, Aled M Jones; Eric Jones; Raymond Jones; C.McGregor; Bryan Owen; R.L.Owen; J.V.Owen; G.O. Parry MBE; Eric Roberts, J.Arwel Roberts, P.S.Rogers, Ieuan Williams,J.P. Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr;<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau.<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones; Mr.Gareth Pritchard (Prif Gwnstabl Cynorthwyol), Mr.Tal Michael (Prif Weithredwr),Mr.Douglas Wynne (Aelod), Mr. Keith Jones (Prif Arolygydd Dros Dro), Mr.Mike Parkin (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau), Mr.Stephen Roberts (Pennaeth Eiddo). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster a Mick Giannasi; Y Cynghorwyr E.G.Davies, Lewis Davies, K.Evans, D.R.Hughes, H.E.Jones, O.Glyn Jones, R.Dylan Jones, Tom Jones, Rhian Medi, R.G.Parry,OBE, G.Winston Roberts,OBE, E.Schofield, S.Williams. |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd K.P.Hughes

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i gynrychiolwyr Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU'R PENNAETH GWASANAETH TÂL.**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb am y croeso cynnes yr oedd ef a'r Is-Gadeirydd wedi ei gael yn eu hymweliadau cyn y Nadolig yn y cartrefi preswyl, canolfannau dydd, Ysbyty Penrhos Stanley ac Ysgol y Bont ac ati.

Diolchwyd yn arbennig i'r Is-Gadeirydd , y Cynghorydd R.Ll.Jones am ei gefnogaeth yn ystod y cyfnod prysur hwn ac am ei gymorth yn ymweld â staff y Cyngor i ddymuno Nadolig Llawen iddynt.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr isod am dderbyn anrhydeddau yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines:-

Mrs.Margaret Thomas o Gaergybi ar ennill yr MBE i gydnabod ei gwaith gydag elusennau yn y gymuned;

Mr. Robert James Owen, Gofalwr Ysgol Llanfawr, Caergybi, ar dderbyn OBE am ei wasanaeth i’r gymuned.

Dr.Carl Iwan Clowes am dderbyn OBE am ei wasanaeth i’r gymuned;

Mrs.Susan Pippa Bonner, Benllech, am dderbyn MBE am ei gwaith gwirfoddol gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Soniodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon llythyr o longyfarchiadau at bob un o’r uchod ar ran y Cyngor Sir.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at salwch gwraig y Cynghorydd R.G.Parry,OBE ac, ar ran y Cyngor, dymunodd yn dda i Mrs.Parry am adferiad llawn a buan.

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle hefyd i atgoffa Aelodau o’i Ginio Elusennol Blynyddol a gynhelid yng Ngwesty Bae Trearddur ar ddydd Gwener 30 Ionawr 2012 ac roedd yn gobeithio y bydd pawb yn gallu mynychu.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, gyda theulu Mr.Tudur Owen, Cynorthwy-ydd Llyfrgell, Llyfrgell Llangefni a fu farw’n ddiweddar. Cydymdeimlodd y Cadeirydd hefyd gydag unrhyw Aelod neu Swyddog a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a’r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o’u parch.

– – – – –

Achubodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i atgoffa Aelodau y byddai Gweithdy yn cael ei gynnal ar gyfer y Cyngor cyfan ddydd Mawrth nesaf rhwng 9:30am a 12 hanner dydd i drafod opsiynau yn y gyllideb ar gyfer arbedion a thwf.

Dywedodd ei fod wedi cael llythyr gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth leol a’r Cymunedau dyddiedig 17 Ionawr 2012 yn dweud fod y Gweinidog wedi penderfynu defnyddio ei bwerau dan Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2000 i newid dyddiad cynnal etholiadau cyffredinol i’r Cyngor Sir a’r Cynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn o fis Mai 2012 i fis Mai 2013.

Byddai penderfyniad y Gweinidog yn golygu y gallai’r Comisiwn Ffiniau gwblhau ei adolygiad o’r trefniadau etholiadol yn Sir Ynys Môn ac y gellid rhoi sylw i’w cynigion a gweithredu unrhyw newidiadau yn nifer a dosbarthiad Cynghorwyr os bydd yn penderfynu gwneud hynny. Byddai hefyd yn rhoi sefydlogrwydd wrth i’r Cyngor symud ymlaen tuag at adferiad ehangach o’r problemau yr oedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi eu disgrifio. Byddai Gorchymyn yn cael ei baratoi yn awr i roi ei benderfyniad ar waith.

Yn ei ymateb i’r llythyr gan y Gweinidog, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Arweinydd y Cyngor yn rhyddhau datganiad byr i’r wasg yn dweud bod y Cyngor yn gwrthwynebu peidio â chynnal etholiad ym mis Mai eleni a’i fod yn siomedig gyda phenderfyniad y Gweinidog yn hyn o beth.

## 3. STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER STADAU – AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cafwyd cyflwyniad gan Mr. Mike Parkin a Mr. Stephen Roberts o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar y cefndir ariannol a’r angenrheidrwydd i adolygu’r stadau’r Heddlu.

Adroddwyd - Fel rhan o’r ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd ar ddyfodol plismona, dywedodd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru y byddent yn edrych ar y defnydd a wneir o adeiladau’r heddlu

ac y byddai cyfleon i wneud rhai arbedion trwy werthu eiddo, gostwng costau refeniw a newid sut yr oeddent yn darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb i'r cyhoedd.

Roedd y Strategaeth Ymgynghorol ddrafft hon yn nodi'r effaith ar bob un o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru, ond roedd llawer o'r cynigion ynddi yn eu dyddiau cynnar. Byddai'r strategaeth yn cael ei chyflawni dros gyfnod o bum mlynedd, yn arbennig felly mewn perthynas â rhai o'r prosiectau mawr a'r eiddo a brydlesir. Ymgynghorid ymhellach trwy'r broses gynllunio lle byddai hynny'n briodol.

Roedd yr argymhellion yn y strategaeth yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth, gan gynnwys priodoldeb yr adeiladau cyfredol a'u gwerth strategol a gweithredol. Gofynnwyd am sylwadau erbyn 1 Chwefror 2012 i ganiatáu amser ar gyfer dadansoddi'r ymatebion cyn i'r Awdurdod ystyried y strategaeth yn ffurfiol ar 17 Chwefror 2012. Nod yr adolygiad oedd cael stad heddlu effeithlon a oedd yn rhedeg ar gost is ac a oedd yn cwrdd ag anghenion cymunedau Gogledd Cymru ac yn darparu gwasanaeth plismona modern. Y nod oedd ceisio diogelu cymaint o swyddogaethau heddlu a staff yn y sefydliad a chynnal y gwasanaeth plismona rheng flaen cymaint â phosib.

Ar hyn o bryd mae 49 o orsafoedd heddlu yng Ngogledd Cymru, gyda naw ohonynt yn ganolfannau ymateb. Roedd yr adolygiad wedi nodi nad oedd angen rhai o'r adeiladau hyn mwyach, i raddau mwy neu lai, neu nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol, eu bod yn ddrud ac yn gyffredinol anaddas i'r pwrpas. Roedd hynny'n golygu y gellid darparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd yn fwy economaidd ac yn fwy effeithlon o fan arall. Roedd canlyniadau gostwng cost stadau'r heddlu yn golygu, efallai, y gellid arbed Heddlu Gogledd Cymru rhag colli 30 o heddweision ychwanegol. Lle penderfynir ail-leoli gorsafoedd heddlu i fannau mwy cost effeithiol neu briodol, byddai'r gorsafoedd heddlu cyfredol yn parhau i fod yn weithredol hyd nes y byddai adeilad addas arall wedi ei ddarganfod a'i gomisiynu ar gyfer trosglwyddiad llyfn.

Roedd yr adolygiad yn argymell bod angen adeiladau newydd ar gyfer dau o'r canolfannau ymateb. Roedd ailddatblygu'r safleoedd hyn wedi bod yn rhan o'r strategaethau blaenorol ar gyfer y stadau a oedd yn cydnabod yr angen i wella'n sylweddol y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaeth heddlu. Roedd y ddwy ganolfan ymateb a fyddai'n cael eu hailddatblygu yn Llangefni a Wrecsam. Roedd cynlluniau ar gyfer adeilad yn Llangefni wedi symud ymlaen cryn dipyn gyda'r safle wedi ei brynu a'r broses ddylunio a chynllunio eisoes wedi cychwyn. Roedd pedair gorsaf heddlu yng Ngogledd Cymru lle 'roedd yr Adolygiad yn argymell y dylid cau'r gorsafoedd a gwerthu'r eiddo. Roedd dwy o'r rhain yn y Gaerwen a'r Fali.

Nid oedd yr argymhelliad i gau gorsafoedd heddlu yn y lleoliadau hyn yn golygu y byddai'r gwasanaeth yn lleihau neu y byddai nifer yr heddweision yn yr ardaloedd hynny yn gostwng. Roedd yr adolygiad yn nodi 16 o adeiladau y byddai angen eu hadolygu yn y dyfodol agos, unwaith eto yn dilyn asesiad o'u pwysigrwydd gweithredol, eu haddasrwydd i'r pwrpas a'u cost. Dwy o'r rhain oedd gorsafoedd heddlu Caergybi a Benllech.

Yn ogystal â'r trosolwg hwn, roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi paratoi crynodebau yn amlinellu effaith y Strategaeth ddrafft ar bob sir ac ar y gorsafoedd hynny ym mhob sir yng Ngogledd Cymru. Tynnwyd sylw at ganlyniadau'r adolygiad mewn tabl ar gyfer pob gorsaf heddlu ac roedd y naratif yn cynnwys crynodeb o'r rhesymau dros y casgliadau hynny, gan gynnwys y defnydd cyfredol o'r adeilad a'r gwasanaethau a oedd ar gael ar y cownter. Roedd hefyd yn amlinellu meysydd lle byddant yn croesawu cael awgrymiadau a sylwadau gan y cyhoedd.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau yn dilyn y cyflwyniad.

Gofynnodd y **Cynghorydd C.Ll.Everett** beth oedd yn digwydd i'r dirwyon yr oedd yr Awdurdod yn eu rhoi i bobl sy'n yfed a gyrru. A oedd yr arian hwnnw yn mynd i gronfa ganolog ynteu yn cael ei gadw gan AHGC? Ni allai ddeall pam yr oedd AHGC yn gwario £2.4m ar adeilad newydd yn Llangefni pan roedd arian wedi'i wario i ddiweddaru Gorsaf Heddlu Caergybi? Caergybi oedd y

dref fwyaf ar yr Ynys gyda phorthladd rhyngwladol i Iwerddon. Nid oedd yr adroddiad yn rhoi ffigyrau ynglŷn â pha arbedion fyddai'n deillio o ryddhau staff?

Mewn ymateb dywedodd **Mr.Mike Parkin** - ynglŷn â dirwyon goryrru, roedd AHGC yn derbyn canran yn ôl ond roedd raid iddynt ail-fuddsoddi'r arian hwnnw ar fesurau diogelwch y ffordd yn ei ardal. Yng nghyswllt y mater staffio, roedd arbedion o tua £7m wedi'u sicrhau o'r ochr swyddogion a rhyw £3m ar ochr staff yr heddlu.

Aeth **Mr.Stephen Roberts** yn ei flaen i ddweud bod AHGC yn ffodus oherwydd bod ganddo bot cyfalaf rhesymol ar gyfer adeiladu o'r newydd ond eu bod yn ei chael yn anodd ar yr ochr refeniw i bethau. Ers 4 Mai 2011 roedd hwb ymateb wedi'i sefydlu yn Llangefni ond roedd yr adeilad yn bell o fod yn addas i'r pwrpas hwn. Y Cyngor Sir oedd perchennog yr adeilad ac yr oedd yn adeilad anodd iawn i'w addasu. Byddai'n well, felly, pe bai Llangefni yn cael adeilad newydd ar Stad Ddiwydiannol Llangefni.

O safbwynt Caergybi, roedd hwn wedi'i farcio fel oren ac nid oedd llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ar yr adeilad dros y blynyddoedd. Byddai'r AHGC mae'n debyg yn edrych i leihau'r orsaf oherwydd ei bod yn llawer rhy fawr i'w ofynion a byddai'r awdurdod yn edrych i fuddsoddi mewn adeilad newydd unwaith y byddai'r adeilad presennol yn dod i ddiwedd ei fywyd.

Credai'r **Cynghorydd W.J.Chorlton** nad oedd y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn Llanelwy wedi bod yn llwyddiant oherwydd, yn ei farn ef, roedd yr AHGC ac ATGC yn cario pwn y Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru. Roedd hwn i fod yn gytundeb tair ochrog gyda'r tri mudiad yn rhannu'r costau. Os nad oedd y Gwasanaeth Ambiwlans yn cyfrannu a oedd unrhyw synnwyr mewn llunio partneriaethau pellach gyda hwy? Roedd yn rhagweld y byddai mwy o amser teithio yn cael ei wario gan swyddogion yn cyd-deithio gyda charcharorion i gelloedd yng Nghaernarfon a Llanelwy a hynny'n golygu y byddai yna leihad yn niferoedd y swyddogion ar y stryd. Nid oedd yn gallu deall y strategaeth hon ac roedd am gwestiynu a fyddai'r AHGC yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau i'r cyhoedd yn gyffredinol?

Mewn ymateb, dywedodd **Mr.Mike Parkin** bod trafodaethau yn parhau gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans ynglŷn â dyfodol yr ystafell reoli a beth hefyd oedd y goblygiadau i'r tri gwasanaeth. O safbwynt partneriaethau, dywedodd bod yna berthynas weithio dda gyda Sir y Fflint a hefyd gyda darparu cyfleuster ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Tan yn Nefyn.

Dywedodd y **Prif Weithredwr Tal Michael** ei fod ef a'r Prif Gwnstabl yn mynychu nifer o gyfarfodydd partneriaeth ar draws Gogledd Cymru a hefyd gyda lluoedd yr heddlu ar draws Gogledd Orllewin Lloegr. Gydag unrhyw bartneriaeth rhaid i chi gael achos busnes cadarn a chytundebau cadarn yn eu lle. Nid oedd yna unrhyw gynlluniau ar gyfer Caergybi ar hyn o bryd ond yr oeddent yn meddwl sut y gallai Caergybi edrych o safbwynt gwasanaeth cyhoeddus ymhen 4-5 mlynedd ac a allai cydweithio fod yn rhywbeth ymarferol.

Dywedodd **Gareth Pritchard Prif Gwnstabl Cynorthwyol** bod y celloedd cadw carcharorion yn cael eu defnyddio gyda rhai o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau, y rhai ag afiechyd meddwl, y rhai oedd yn hunan-niweidio a rhai oedd yn fygythiol. Yng Ngogledd Cymru roeddent yn defnyddio sarjant y ddalfa, nifer fawr o swyddogion dal sifil, 15 o nyrsys cymwys a meddyg ar alw i allu gwneud eu dyletswyddau i edych ar ôl pobl mewn ffordd ddiogel. Roeddent wedi edrych mewn manylder ar eu darpariaeth o gadw rhai yn y ddalfa ar draws yr heddlu ac er mwyn gwneud hynny'n ddiogel bu'n rhaid iddynt gau gorsaf yr Wyddgrug gyda'r holl garcharorion yn cael eu trosglwyddo i Wrecsam. Flynyddoedd yn ôl roedd ganddynt gyfleusterau i gadw carcharorion yn y ddalfa yn Rhyl, Bae Colwyn a Llandudno. Roedd y rhain oll yn awr wedi'u canoli yn Llanelwy.

Roedd yna gyfleusterau ar gyfer cadw rhai yn y ddalfa yng Nghaergybi, Caernarfon a Dolgellau ac roedd angen swm sylweddol o adnoddau i allu staffio'r rhain yn ddiogel. Roedd Caernarfon wedi'i ymestyn yn ddiweddar a byddai'n weithredol o fis Mawrth y flwyddyn hon gyda 16 cell a dwy ystafell gadw. Ar hyn o bryd nid oedd Caernarfon, Caergybi a Dolgellau'n cael eu defnyddio i'w

llawn gapasiti ond er mwyn gallu eu staffio hwy'n ddiogel bu'n rhaid cymryd swyddogion oddi ar y strydoedd.  Roedd ef yn bersonol yn anghyfforddus gyda chau unedau cadw yn y ddalfa oherwydd roedd hynny'n golygu bod yn rhaid teithio ymhellach weithiau gyda charcharorion bygythiol i Gaernarfon neu Llanelwy.

Nid oedd staffio 3 uned cadw yn y ddalfa ar draws Gwynedd a Môn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yr oedd, fodd bynnag, yn ymwybodol o'r datblygiadau yn Wylfa B a'r posibilrwydd y byddai camp yn cael ei sefydlu ar gyfer 5,000+ o weithwyr i adeiladu'r safle.  Nid oedd cau celloedd Caergybi yn rhywbeth yr oedd ef eisiau ei wneud ond yr oedd yn rhaid ceisio cydbwyso'r adnoddau oedd ar gael.

Dywedodd y **Cynghorydd J.V.Owen** ei fod yn bryderus ynglŷn â phroblem cyffuriau a hefyd bod yr henoed yn ofni'r canlyniadau.  Roedd yn derbyn bod rhaid cadw carcharorion yn ddiogel ond nid oedd yn cytuno gyda'r gost o gael dau o'r heddlu yn teithio gyda charcharor o Gaergybi neu Langefni i'w gadw yn y ddalfa yng Nghaernarfon.  Roedd hynny'n golygu y byddai yna lai o'r heddlu ar y strydoedd i ddiogelu'r cyhoedd.  Y cwbl oedd y Llywodraeth yn ei wneud oedd creu problemau i'r dyfodol a chymryd y parch i ffwrdd oddi wrth y wisg.  Cyfeiriodd hefyd at y broblem fawr o barcio'n anghyfreithlon ar ein strydoedd oherwydd nad oedd gan yr Heddlu amser i ymdrin â hyn.

Cyfeiriodd y **Cynghorydd G.O.Parry,MBE,** at Orsaf yr Heddlu, Y Fali gan ddweud ei bod yn bwysig i'r pentref a hefyd yn strategol gan ei bod yn agos i Gaergybi ac i'r ardal fawr o gefn gwlad o amgylch Y Fali lle nad oedd aelodau o'r heddlu yn bresennol.

Wrth ateb, dywedodd **Stephen Robert** nad oedd yr orsaf heddlu yn Y Fali yn cael ei defnyddio mor aml â hynny ac roedd yn adeilad rhy fawr i'r hyn oedd ei eisiau.  Roeddent, fodd bynnag yn edrych i gadw meddygfa'r heddlu yn Y Fali.

**Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gareth Pritchard** y byddai'r AHGC yn croesawu cael trafodaethau pellach gyda'r Cyngor ynglŷn â phlismona gwersyll gweithwyr yn Wylfa B, lle y byddai'r camp hwnnw'n cael ei leoli a pha welliannau oedd eu hangen i rwydwaith y ffyrdd.

**Dywedodd y Prif Weithredwr** - o safbwynt Wylfa B, bwriad y Cyngor oedd cynnal trafodaethau a gweithio'n agos gyda phartïon oedd â diddordeb unwaith yr oedd yna ddealltwriaeth glir am gyfeiriad y prosiect.  Fe grybwyllwyd y byddai tua 7,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod adeiladu a byddai hyn wrth reswm yn cael effaith ar ein cymunedau.  Byddai'r datblygiad, pe cai ei ganiatáu, yn un o'r rhai mwyaf ar draws y DU ac ar yr un raddfa a'r Gemau Olympaidd yn Llundain.  Roedd y cynnig a wnaed gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gareth Pritchard i gydweithredu ar y prosiect hwn yn un oedd yn cael ei groesawu'n fawr.

**Dweud wnaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gareth Pritchard** bod yr amserlen arfaethedig yn dweud y byddai'r Heddlu Niwclear Sifil yn Wylfa yn gadael y safle ac yn ailddechrau eu dyletswyddau unwaith y byddai Wylfa B yn dod yn weithredol.  Roedd Cymdeithas Heddlu Gogledd Cymru'n bryderus am y gwagle y byddai hynny'n ei greu a hefyd y pwysau ar yr heddlu i blismona gwersyll y gweithwyr.

Cadarnhaodd y **Cynghorydd A.Morris Jones** y byddai'r heddlu niwclear yn gadael Wylfa pan fyddai'r deunydd tanio diwethaf yn gadael y safle.  Roedd Pwyllgor Cyswllt y Wylfa, ac yntau'n Gadeirydd arno, yn bryderus am yr adnoddau oedd ar gael i blismona'r safle.  A fyddai'n rhaid i Gymdeithas Heddlu Gogledd Cymru blismona'r safle yn ystod y cyfnod canol hwn?  Byddai'n croesawu cyfarfod rhwng y Pwyllgor Cyswllt a Chymdeithas Heddlu Gogledd Cymru i drafod y mater hwnnw.  Dylid canmol Cymdeithas Heddlu Gogledd Cymru  am eu cydweithrediad gyda'r Awdurdod Tân a dywedodd bod y Ganolfan Reoli ar y Cyd yn Llanelwy yn rhywbeth i edrych i fyny ato, nid yn unig yng Nghymru ond trwy'r DU cyfan.

Holodd y **Cynghorydd B.Durkin** faint yr oedd Cymdeithas Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl ei arbed o'i strategaeth ym Môn. Yn ei Ward ef, roedd Gorsaf yr Heddlu, Benllech yn weddol ddistaw dros gyfnod y gaeaf, ond yn ystod misoedd yr haf roedd y boblogaeth yn dyblu oherwydd twristiaeth. Fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod yr orsaf yn cael ei chadw, os nad yn ei ffurf bresennol yna trwy ryw drefniant arall gyda'r Gwasanaeth Tân neu'r Llyfrgell, efallai.

Mewn ymateb i'r cwestiwn o arbedion ym Môn, dywedodd **Mr.Mike Parkin** y gallai'r arbedion fod tua £40-£50k ym mhob blwyddyn, a hynny'n cyfateb i un swyddog heddlu.

Holodd y **Cynghorydd T.Ll.Hughes** pam roedd AHGC wedi gwneud y penderfyniad yn wreiddiol i symud i Neuadd y Sir yn Llangefni pan nad oedd yr adeilad bellach yn addas i'w pwrpasau? Gofynnodd hefyd beth oedd y synnwyr y tu ôl i gludo carcharorion i gelloedd yng Nghaernarfon a'r costau oedd ynglŷn â hynny. Nid oedd unrhyw son yn y ddogfen ymgynghori am gelloedd cadw yn y ddalfa yn yr adeilad newydd yn Llangefni ac a â oedd hynny'n golygu y byddai'n rhaid parhau gyda'r trefniant o symud carcharorion i Gaernarfon neu ymhellach? Yn yr un modd, nid oedd unrhyw sôn a fyddai swyddogion yr heddlu ym Mhorthladd Caergybi'n cael eu talu o arian AHGC neu o ffynonellau eraill.

Y problemau yng Nghaergybi, meddai'r **Cynghorydd Raymond Jones**, oedd tafarndai, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yna yfed dan oed a miwsig yn dod o dafarndai mewn ardaloedd preswyl hyd oriau man y bore. Y syniad o gael heddlu oedd gwneud llefydd yn saff i'r cyhoedd ac yn anffodus, yn ei farn ef, nid oedd hynny'n digwydd yng Nghaergybi.

Mewn ymateb dywedodd y **Prif Arolygwr Dros Dro Mr.Keith Jones** bod y celloedd ar gael i'w defnyddio ar y penwythnosau yng Nghaergybi. O safbwynt y sefyllfa gyda chyffuriau, roedd gwarantau chwilio wedi'u defnyddio yng Nghaergybi dros y bythefnos ddiwethaf.

Mynegodd y **Cynghorydd Eric Jones** ei siom fel yr aelod lleol tros Gaerwen gyda'r argymhelliad i gau'r orsaf heddlu yno. Roedd yn derbyn mai Llangefni oedd y lleoliad iawn i'r hwb ond roedd am atgoffa'r cyfarfod y gallai cau'r orsaf heddlu yng Ngaerwen achosi problemau oherwydd bod y ddwy bont i Ynys Môn yn agos iawn.

Mewn ymateb dywedodd **Mr.Stephen Roberts** bod Gorsaf Heddlu Gaerwen yn cael ei defnyddio'n bennaf i bwrpasau hyfforddi gyda rhai o'r heddlu lleol wedi'u lleoli yno hefyd. Y nod oedd i'r adain hyfforddi gael ei symud i'r adeilad newydd yn Llangefni a byddai hynny wedyn yn lleihau'r angen i gadw Gaerwen. Fel yn Y Fali, y bwriad fyddai galw meddygfeydd yr heddlu mewn gwahanol leoliadau yng Ngaerwen.

Holi wnaeth y **Cynghorydd K.P.Hughes** a oedd yn ymarferol rhannu cyfleusterau gyda mudiadau eraill, rhannu costau a chadw presenoldeb yr heddlu?

Wrth ateb dywedodd **Mr.Stephen Roberts** bod Cymdeithas Heddlu Gogledd Cymru yn fwy na pharod i drafod posibiliadau o'r fath pan fyddai'r opsiynau'n cynnig eu hunain, ar yr amod y byddai'r cyfleusterau fyddai'n cael eu rhanu yn cael eu hariannu'n rhannol.

Dywedodd y **Cynghorydd Eric Roberts** ei fod yn hapus i weld CHGC yn ymgynghori gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ac yn cynnal meddygfeydd mewn gwahanol lefydd. O edrych ar fap o'r Ynys, roedd Benllech, Porthaethwy ac Amlwch yn edrych yn eithaf diogel ond roedd ganddo bryderon gydag ochr isaf yr Ynys pe bai'r Fali'n cael ei chau. Ni ellid gwasanaethu'r ardal honno wedyn ond o Langefni. Yr oedd Ynys Môn yn lle prysur iawn gyda thwristiaid tros fisoedd yr haf. Dyma'r cyfnod pan fyddai digwyddiadau'n digwydd ac yr oedd am gael sicrwydd y byddai yna swyddogion llanw ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Dweud wnaeth y **Cynghorydd C.McGregor** bod y toriadau yn anodd i'w cyflawni oherwydd roedd disgwyliadau pobl yn uwch ac yn seiliedig ar sut yr oeddent yn cofio yr heddlu pan oeddent hwy yn bobl ifanc. Yn anffodus, roedd plismona wedi newid llawer tros y blynyddoedd. Lle nad oedd ond

defnydd cyfyngedig yn cael ei wneud o’r gorsafoedd heddlu, rhannu cyfleusterau gyda sefydliadau eraill oedd y ffordd ymlaen.

Holodd y **Cynghorydd W.T.Hughes** y gost o fynd a throseddwyr oddi ar yr Ynys i’r ddalfa yng Nghaernarfon. Roedd yn parhau yn bryderus ynglŷn ag yfed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd un person yn ei bentref ef wedi cael ei arestio 29 gwaith tros y flwyddyn. Roedd yn cwestiynu a oedd y ddedfryd a roddir gan y Llysoedd yn ddigonol yn y pendraw.

Diolchodd **Arweinydd y Cyngor** i gynrychiolwyr Cymdeithas Heddlu Gogledd Cymru am eu cyflwyniad ac am eu gweledigaeth o batrwm plismona’r Ynys yn y dyfodol. Roedd yn bwysig galw cyfarfodydd o’r fath a hefyd weithio gyda’n gilydd yn y dyfodol tuag at un nod cyffredin. Cyfeiriodd at gyfarfod yr oedd wedi’i fynychu’n ddiweddar lle cyfeiriwyd at y Cynllun Integredig i Reoli Troseddwyr.

Diolchodd **Mr.Tal Michael, Prif Weithredwr** i’r Cyngor am y cyfle a roddwyd iddynt egluro strategaeth Stadau’r Heddlu. Roedd yn bwysig parhau gyda’r gwaith gyda’n gilydd ar unrhyw gynlluniau yn y dyfodol oedd o ddiddordeb i’r ddwy ochr. Roedd y Cynllun Integredig Rheoli Troseddwyr yn ddatblygiad diddorol a byddai AHGC yn barod i roi diweddariad i’r Cyngor yn nes ymlaen pe bai angen.

Dywedodd y **Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gareth Pritchard** y byddai, yn dilyn y cyfarfod heddiw, yn ysgrifennu i’r Cyngor ynglŷn â chyd-weithio efo’r datblygiadau arfaethedig yn Wylfa.

Diolchodd y Cadeirydd i’r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad ac am eu hatebion i’r cwestiynau a gafwyd. Roedd yn edrych ymlaen at y cyfle i gael cyd-weithio gyda’r Awdurdod hwn a Heddlu Gogledd Cymru yng nghyswllt yr adeiladu newydd arfaethedig yn Wylfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:40 pm

**CYNGHORYDD G.O.JONES**
**CADEIRYDD**